

# Cadw llygad

**Dydy pobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio** ddim bob amser yn ymddangos nac yn ymddwyn yn fregus

Os nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn, mae'n bosib nad yw e'n iawn.

BRITISH TRANSPORT POLICE

The Children's Society

NPCC National County Lines Coordination Centre



**gwasanaethau ar y ffyrdd yn gallu bod yn llefydd i sylwi ar blant sy'n dioddef camfanteisio.**

Pe bai pob un ohonom yn dysgu sut i sylwi ar arwyddion posibl camfanteisio ar berson ifanc, gall pob un ohonom helpu i'w cadw'n ddiogel ac atal y gamdriniaeth hon rhag digwydd.

Beth am dreulio ychydig funudau'n dysgu mwy am gamfanteisio ar blant a beth i'w wneud os ydych chi'n poeni am unigolyn neu griw o bobl ifanc.




**#CadwLlygad** **Peidiwch ag oedi. Riportiwch e.**

### Os yw pobl ifanc wedi dioddef camfanteisio neu gamdriniaeth:

- Dydyn nhw ddim bob amser yn edrych yn fregus
- Dydyn nhw ddim bob amser yn ymddwyn fel dioddefwyr
- Efallai nad ydyn nhw'n deall bod eraill yn camfanteisio arnyn nhw
- Hwyrach eu bod nhw'n amheus o'r heddlu/ pobl mewn awdurdod
- Fe allan nhw ymddangos yn flin neu'n ymosodol; mae'r rhain yn arwyddion cyffredin o drawma
- Efallai eu bod nhw'n ofni beth allai ddigwydd iddyn nhw nesaf
- Hwyrach eu bod eisiau teimlo'n ddiogel a bod rhywun yn gwrando arnyn nhw, fel eu bod nhw'n ddigon cyfforddus i sôn am yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw



**Mae pobl ifanc yn gallu dioddef camfanteisio unrhyw le, ond dyma'r mannau mwyaf cyffredin lle gallech chi weld yr arwyddion:**



**Trafnidiaeth gyhoeddus:** Mae grwpiau troseddau cyfundrefnol yn defnyddio trenau, tramiau a bysiau i gludo plant er mwyn camfanteisio arnyn nhw.

**Gwasanaethau ar y ffyrdd/gorsafoedd petrol:** Efallai y bydd pobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio yn stopio mewn gwasanaethau a gorsafoedd petrol i fynd i'r toiled neu gael bwyd.

**Llefydd golchi ceir:** Mae pobl ifanc sy'n cael eu masnachu i'r wlad hon weithiau'n cael eu gorfodi i weithio mewn llefydd fel hyn.

**Llefydd tecawê, caffis a chanolfannau siopa:** Mae'r mannau poblogaidd hyn i bobl ifanc yn cynnig bwyd am bris rhesymol a chyswllt wi-fi. Mae rhai ar agor 24 awr y dydd. Mae camfanteiswyr weithiau'n manteisio ar hyn.




**Gwestai/llety preifat ar osod:** Mae camfanteiswyr yn aml yn defnyddio ystafelloedd gwesty neu dai preifat i gam-drin yn rhywiol a chamfanteisio'n droseddol ar bobl ifanc. Bydd grwpiau troseddu cyfundrefnol yn eu defnyddio weithiau fel lle i storio, paratoi a dosbarthu cyffuriau.

**Gwasanaethau tacsi a rhannu cludiant:** Mae tacsis ac apiau cludiant preifat yn cael eu defnyddio'n helaeth i gludo pobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio.

**Salonau gwallt a harddwch:** Mae pobl ifanc sy'n cael eu masnachu i'r wlad weithiau'n cael eu gorfodi i weithio ac aros yn y llefydd hyn.

Os ydych chi'n poeni am ymddygiad neu ymddangosiad person ifanc, a'i bod yn ddiogel i chi wneud hynny, holwch a yw'n iawn – gallai wneud y byd o wahaniaeth.

## Sut i gychwyn sgwrs:



'Ti'n edrych ar goll. Wyt ti angen help?'

'Haia. Wyt ti'n iawn? Lle wyt ti'n mynd heddiw?
O lle ti 'di dod heddiw?'

'Gobeithio nad wyt ti'n meindio mod i'n dweud hyn, ond rwyt ti'n edrych ychydig yn bryderus. Alla i helpu?'

## #CadwLlygad am arwyddion camfanteisio neu gam-drin

Ydy'r plentyn neu'r person ifanc:

- Yn teithio ar ei ben ei hun, yn enwedig yn ystod oriau ysgol, gyda'r nos, neu'n aml iawn?
- I'w weld ar goll neu mewn man anghyfarwydd?
- Yn bryderus, ofnus, blin neu'n dangos arwyddion eraill sy'n gwneud i chi boeni amdano?
- Yn berchen ar fwy nag un ffôn?
- Yn cario tipyn go lew o arian parod?
- Dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau o bosib?
- Yn cael ei gyfarwyddo neu ei reoli gan unigolyn arall?
- Yng nghwmni unigolion sy'n hŷn nag ef neu hi?
- Yn cardota mewn man cyhoeddus?

Helpwch ni i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag dioddef camfanteisio a chael eu cam-drin. **Peidiwch ag oedi. Riportiwch e:**

Os ydych chi'n poeni am blentyn ac yn amau ei fod yn achos brys, ffoniwch **999**, neu **101** os nad yw'n achos brys.

Os ydych chi ar drên, tecstiwch Heddlu Trafnidiaeth Prydain ar **61016**.

Neu, os byddai'n well gennych fod yn ddienw, gallwch gysylltu â'r elusen annibynnol Crimestoppers ar-lein neu ffonio **0800 555 111**.

**childrenssociety.org.uk/lookcloser**

BRITISH TRANSPORT POLICE

The Children's Society

NPCC National County Lines Coordination Centre

Rhif Elusen Gofrestredig 221124 © Cymdeithas y Plant 2020 DEX015b/0221